



Tiani yn gwirfoddoli yng Ngŵyl Lenyddiaeth Dinefwr 2014

Dechreuais chwilio am gyfleoedd i wirfoddoli yn y sector llenyddol yn wreiddiol oherwydd fy mod eisiau ehangu fy ngwybodaeth am y diwydiant ysgrifennu. Wrth chwilio drwy fforymau'r Brifysgol Agored, fe welais edefyn yn ymwneud â gwirfoddoli ac ysgrifennais yr hyn roeddwn yn chwilio amdano. Cysylltodd y Cyngorwr Cyflogadwyedd â mi ac awgrymodd y gallwn wirfoddoli yng Ngŵyl Lenyddiaeth Dinefwr.

Bachais y cyfle ac fe gofrestrais drwy ddolen ar wefan yr ŵyl. Anfonodd y trefnwyr wybodaeth ataf ynglŷn â'r lleoliad ac amserlen o'm dyletswyddau penodol yn ystod yr ŵyl yn ogystal â'm sifftiau. Bûm yn gweithio sifftiau o bedair awr yr un dros dridiau'r ŵyl ac o ganlyniad cefais fynediad am ddim. Roedd y gwirfoddolwyr hefyd yn cael gwrsylla am ddim.

Mantais annisgwyl gwirfoddoli yn yr ŵyl oedd cael y cyfle i gwrdd ag awduron/beirdd yr oeddwn yn eu helpu. Ar y diwrnod cyntaf, sef y dydd Gwener, cynorthwyais yr awdures Romy Wood gyda'i gweithdy ysgrifennu a noddwyd gan y Brifysgol Agored, a chefais wrando ar ddigwyddiad arall gyda'r Brifysgol gyda Vince East, am Socrates. Fodd bynnag, mae'n rhaid i mi gyfaddef mai fy hoff ddigwyddiad oedd gwrandio ar Jacob Sam La Rose y bardd. Roedd ei berfformiad barddoniaeth nid yn unig yn anhygoel, ond fe siaradodd hefyd am sut bu'n gweithio gyda myfyrwyr er mwyn eu helpu i fynegi eu hunain drwy farddoniaeth. Gan fy mod yn gobeithio addysgu rhyw ddiwrnod, teimlais fod ei sgwrs yn ddefnyddiol ac yn addysgiadol dros ben.

Elwais lawer o'm profiad yn gwirfoddoli. Dysgais am y gwahanol rolau y gall barddoniaeth ei chael mewn cymdeithas. Mae gan farddoniaeth ffordd o siarad â phobl ac ar gyfer y rhai sy'n ysgrifennu barddoniaeth, mae'n gallu darparu ffurf o therapi hefyd. Dysgais sut mae gan farddoniaeth y gallu i gyrraedd pobl ifanc a'i fod yn gallu rhoi 'llais' iddyn nhw. Mi wnes i hefyd gyfarfod pobl wych a oedd hefyd yn gwirfoddoli; bu'n brofiad gwerth chweil!

Rwy'n gobeithio cadw golwg am gyfleoedd eraill i wirfoddoli gyda gwyliau llenyddol eto yn y dyfodol gan eu bod yn ffordd wych nid yn unig o fod yn bresennol yn yr ŵyl ei hun ond hefyd i fod yn rhan ohoni!